



Trwy e-bost

25 Awst 2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Gorffennaf 2023 ynglŷn â'r adroddiad **'Os nad nawr, pryd?'** a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'ch cais am fy marn ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn.

Nodaf y papur [briffio](#) diweddar a luniwyd gan Dîm Ymchwil y Senedd, sy'n tynnu sylw at y darlun cymhleth sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y plant sy'n mynd i ofal awdurdodau lleol Cymru. Mae mwy nag un plentyn o bob cant yng Nghymru mewn gofal ac mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol yn y deng mlynedd diwethaf.

Rwyf wedi adolygu ymateb Llywodraeth Cymru i'ch adroddiad a'r ddadl ddilynol a gynhaliwyd yn y Senedd. Nodaf y nifer helaeth o argymhellion a wrthodwyd neu a dderbyniwyd yn rhannol a gallaf ddeall siom y Pwyllgor o ganlyniad. Yn anffodus, nid oes gan fy swyddfa dystiolaeth nac ymchwil helaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r mater penodol hwn i lywio'r ddadl ymhellach.


Deallaf fod y Comisiynydd Plant hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch y mater hwn, a hoffwn innau hefyd bwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu clir rhwng y Llywodraeth, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynghylch y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi plant mewn gofal. Rwy'n annog pob plaid yn gryf i ddarllen sylwadau'r Comisiynydd Plant i'ch pwyllgor yn llawn.

Rwy'n rhannu'r teimlad ei bod yn hanfodol i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gymryd rhan weithredol a blaengar mewn trafodaethau sy'n ceisio diogelu a chyfoethogi bywydau ein plant a'n pobl ifanc.

Edrychaf ymlaen yn eiddgar at archwiliad parhaus y Pwyllgor ar y mater hwn, yn enwedig y sesiwn sydd i ddod gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Medi. Er y gall fy nghyfraniadau uniongyrchol fod yn gyfyngedig yn y maes hwn, mae gennyf ddiddordeb bob amser mewn trafodaethau a chynigion i hybu buddiannau ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Edrychaf ymlaen at rannu fy mlaenoriaethau ar gyfer fy nghyfnod gyda Phwyllgorau yn y misoedd nesaf ac os gall fy Swyddfa fod o unrhyw gymorth pellach, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yr eiddoch yn gywir,



Marie Brousseau-Navarro  
Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol